

# Liberty Hall

**Taith gerdded ar rosydd sydd â golygfeydd, drwy'r goedwig, ac ar lan yr afon**

**Pellter:** 12.8km / 8 milltir

**Amser:** Tua 4.5 - 5 awr

**Parcio a chychwyn:** Maes parcio Corwen

**Cyf. Grid:** SJ080435, Map yr OS 'Explorer' 255

**Graddfa:** Egniol (ychydig o waith dringo dros y rhostir agored)

**Cyfleusterau:** Parry's Plaice, Cynwyd; yr holl gyfleusterau yng Nghorwen [www.corwen.org](http://www.corwen.org)

**Moorland with wide views, woodland and riverside walking**

**Distance:** 12.8km / 8 miles


**Time:** Allow 4.5 - 5 hours

**Parking and start:** Corwen car park

**Grid ref:** SJ080435, Explorer map 255

**Grade:** Strenuous (some ascent across open moorland)

**Facilities:** Parry's Plaice, Cynwyd; all facilities in Corwen [www.corwen.org](http://www.corwen.org)



## Y Daith Gerdded

Mae rhannau o'r daith hon yn dilyn Llwybr Gogledd y Berwyn sy'n daith o 24km / 15 milltir gydag arwyddion, gan ddarganfod ochr ddeheuol Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy. Mynnwch gopi o'r llyfryn o Ganolfan Groeso Llangollen neu o'r wefan [www.deevalleywalks.com](http://www.deevalleywalks.com)

**1.** Cerddwch o'r maes parcio i'r ffordd fawr a throï i'r dde. Croeswch y briffordd ar y groesfan pelican. Trowch i'r chwith gan gadw Banc yr HSBC ar eich llaw dde, cerddwch i fyny lôn gul a heibio i gapel Bethesda. Ar ben y lôn ewch ymlaen ar i fyny ar y llwybr glaswellt, bydd arwydd 'Pen y Pigyn' yma. Pan fydd y llwybr yn cyfarfod â llwybr arall - tueddwch tua'r dde. Yna pan fydd y llwybr yn fforchio, ewch i'r chwith (sylwch ar qerrig yr Orsedd ar eich llaw dde). Yn fuan wedyn, dringwch y grisiau cerrig. Ewch ymlaen gan ddringo'r llwybr hwn ac i fyny rhagor o risiau gan gadw'r wal gerrig ar eich llaw dde nes cyrraedd y gofeb gerrig a'r olygfan. Cymerwch y llwybr cul ar y llaw dde a'i ddilyn i'r llwybr llydan. Trowch i'r dde ymlaen drwy'r giât. Ar y gyffordd T, ewch i'r chwith gan ddilyn arwydd

'Liberty Hall'. Ar y gyffordd nesaf ymhen tua 100m, trowch i'r dde ac ewch ymlaen drwy'r goedwig.

**2.** Ar derfyn y goedwig, croeswch y gamfa sy wrth y giât fetel ac i'r mynydd grug. Dilynwch y llwybr amlwg hwn am tua 2km, gan ddringo'n raddol. Ewch heibio'r murddun cyntaf ar eich llaw dde a dal i ddringo nes cyrraedd murddun arall ar y dde ar ddarn o dir gwastad - dyma Liberty Hall, sy'n hen gwt saethu. (Golygfeydd eang o Eryri i'r gorllewin, a Bryniau Clwyd i'r de a Mynydd y Berwyn i'r dwyrain a'r gogledd). Ymlaen ar y llwybr ar y goedwig sydd o'ch blaen. Ar ôl rhyw 700m dringwch y gamfa a dilyn y llwybr llydan wrth iddo wyro i lawr i'r dde tuag at y giât.

**3.** Croesi'r gamfa / giât a dilyn y llwybr llydan i'r goedwig. Ar y gyffordd T sy'n ymuno â llwybr lletach, ewch i'r dde (dyma Llwybr Gogledd y Berwyn y byddwch yn ei ddilyn yn ôl yr holl ffordd i Gorwen). Ar ôl 50m, troi i'r dde i lwybr cul drwy'r goedwig. Dilynwch y llwybr troellog at ymyl y goedwig. Croeswch y gamfa ac ewch ymlaen dros y tir glaswellt agored i gamfa arall ac i'r goedwig nesaf.

# Liberty Hall

Dilynwch y llwybr llydan i chwarel fechan ar eich llaw dde ac i gyffordd. Cymerwch yr ail ar y chwith (peidiwch â mynd drwy'r rhwystr metal na dringo) gan ddal i ddilyn Llwybr Gogledd y Berwyn. Dilynwch y llwybr llydan ar i lawr i ymuno â'r ffordd ac yna ymlaen ar y ffordd yr holl ffordd i mewn i Gynwyd. Ar y gyffordd yng nghanol y pentref, trowch i'r dde a cherddwch ar y ffordd fawr.

**4.** Ar ôl mynd heibio'r tŷ olaf ar y llaw chwith, trowch i'r chwith i lwybr troed ac arno arwydd Corwen. Ar ben y llwybr llydan, croeswch y gamfa a dilyn y llwybr sydd o'ch blaen gan gadw'r hen wrych bylchog ar eich llaw chwith. Croeswch gamfa arall yn ymyl y giât ac yna trowch i'r dde a cherdded ar hyd yr hen lein. Ewch drwy'r giât sydd wrth y tŷ ac ymlaen ar hyd yr hen lein gan gadw'r afon ar eich llaw chwith a chan fynd heibio eglwys Llangar ar y dde a chuddfan adar a grëwyd o hen gwt rheilffordd. Croeswch y gamfa i ardd y tŷ gwyn a dilyn y llwybr dros y lawnt gan gadw yn ymyl yr afon. Croeswch y gamfa yn y gornel chwith ar derfyn y lawnt gan ymuno â'r llwybr llydan o'ch blaen. Ar ôl 100m, trowch i'r chwith i lwybr ag arno arwydd, ewch drwy'r coed, dringo'r gamfa ac i'r ffordd. Croeswch y ffordd fawr yn ofalus a cherdded i'r dde ar y pafin gan ddilyn yr arwydd i mewn i Gorwen. Ewch i ganol y dref a throi i'r chwith wrth y cerflun ac i'r maes parcio.

## The Walk

Part of this walk follows the North Berwyn Way, a 24km / 15 mile waymarked route that explores the southern side of the Dee Valley. Pick up a copy of the booklet from Llangollen TIC or download from [www.deevalleywalks.com](http://www.deevalleywalks.com)

**1.** From the car park walk to the High Street and turn right. Cross the main road at the pelican crossing. Turn left off the High Street walking to the left of HSBC Bank up a narrow lane. Pass the white Bethesda chapel. At the top of the lane, continue uphill on a grassy track, signed Pen y Pigyn. Where this path meets another bear right. At path fork bear left, (note the Gorsedd stone circle to the right) and soon after climb stone steps. Continue climbing on this path, going up more steps with a stonewall on the right, until you reach the viewpoint and monument. Take the narrow path right and follow to a track. Turn right onto the track and go through a gateway. At T junction turn left, signed Liberty Hall. At the next junction, after about 100m, turn right and continue through the forest

**2.** At the forest edge cross the stile beside metal gate onto the moorland. Follow the clear winding path through the heather for about 2km climbing

steadily, passing a first ruin and continuing to climb until you reach another ruin on a higher plateau on the right. This is Liberty Hall, a disused shooting lodge. (Wide views of Snowdonia to the west, the Clwydian Range to the south and the Berwyns to the east and north.) Continue on the track ahead. After about 700m cross a stile then follow the track as it curves right downhill. Continue bearing right downhill towards a gate.

**3.** Cross gate/stile and follow track into the forest. At a T junction with a wider forest track turn right, joining the North Berwyn Way (that you now follow all the way back to Corwen). After 50m turn right onto a narrow natural path through the forest. Follow this winding path to a stile at the forest edge. Cross stile then continue ahead across rough grassland to cross a second stile back into the forest. Follow the track to a small quarry on the right and a track junction. Take the second left (do not go uphill through metal barrier) still following the North Berwyn Way. Follow the track down to join a road and continue ahead on the road all the way into Cynwyd. At the road junction in the village centre turn right along the main road.

**4.** Just beyond the last houses on the left take the footpath left, signposted Corwen. At the end of the track cross the stile and follow the path ahead keeping the old hedge on the left. Cross another stile beside a gate then turn right and walk along the old railway line. Go through a gate beside a house and continue along the old railway line with the river on your left, passing the white Llangar church on the right and a birdhide converted from an old railway hut. Cross a stile into the grounds of a riverside house and follow the path across the lawn keeping close to the river. Cross the stile in the left corner of the fence at the end of the lawn and join the track ahead. After 50m turn left onto a waymarked path through trees to the road. Go over stile and carefully cross the main road and walk along the pavement, following the road sign to Corwen. Walk into the town centre and turn left back to the car park.



Grugiar goch / Red Grouse

## Grugieir ar y mynydd

*Rhan o Stad y Rhug yw'r mynydd. Am dros ddwy ganrif cafodd y rhostir ei reoli ar gyfer saethu adar, a bu hyn yn gymorth i gynnal y rhostir agored a'r grug sy mor bwysig i'r bywyd gwylt. Mae rhesi o guddfannau saethu a wnaed o gerrig a thyweirch wedi'u cuddio o dan y grug. Codwyd y rhain yn gysgod i'r saethwyr tra roedd y curwyr a'u cŵn yn gyrru'r grugieir tuag atynt.*

*Adeiladwyd Liberty Hall yn gwt saethu gan yr Arglwydd Newborough yn gynnar yn yr 20fed ganrif er mwyn manteisio ar y golygfeydd syfrdanol. Cludwyd yr ymwelwyr o Gynwyd, ond roedd y cwt mewn lle mor anghysbell ac yn anodd ei drin fel na chafodd ei ddefnyddio'n hir. Defnyddiwyd yr hen adeilad gan y Gwarchodlu Cartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd i wlyio am awyrennau.*

## A Grouse Moor

*The moorland is part of Rhug Estate and has been managed for game shooting for over 200 years. This has helped to maintain the open heather moorland that is so valuable for wildlife. Hidden beneath the heather are rows of stone and turf grouse butts, built to hide and give shelter to the shooting party whilst the beaters and their dogs drove the grouse towards them.*

*Liberty Hall was built as a shooting lodge by Lord Newborough in the early 20th century to take advantage of the stunning views. Guests were driven up from Cynwyd but the lodge was remote and difficult to service and it was short-lived. The derelict building was put to use as a lookout by the Home Guard during World War II.*

